

Adroddiad



Blynyddol

AGGCC 2012-13

Fersiwn Hawdd ei Darllen



Cynnwys



Am yr adroddiad hwn

3



Adolygiad y Prif Arolygydd

11



Pennod 1: Am AGGCC

17



Pennod 2: Sut y gwnaethon ni yn 2012-13

25



Pennod 3: Sut mae ein gwaith yn effeithio
ar fywydau pobl

32



Pennod 4: Sut mae Gwasanaethau
Cymdeithasol yn gwneud?

36



Pennod 5: Y pethau pwysicaf i ni eu
gwneud

48



Am yr adroddiad hwn



Mae'r adroddiad Hawdd ei Ddarllen hwn yn hir iawn.



Mae llawer o wybodaeth bwysig.



Rydyn ni'n awgrymu eich bod yn darllen 1 bennod ar y tro.



Mae gweddill yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i'ch helpu i deall yr adroddiad.

Mae AGGCC yn golygu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.



Mae'r gyfraith yn dweud wrthon ni i:




- Wirio Gwasanaethau Cymdeithasol



- Gwneud cofrestr o wasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant



- Gwirio i wneud yn siŵr bod pob gwasanaeth ar y gofrestr yn dilyn y rheolau



Dyma'r math o wasanaeth yr ydyn ni'n ei gofrestru a'i wirio:



- Cartrefi gofal a chartrefi nyrsio



- Asiantaethau gofal cartref



- Cynlluniau lleoliadau oedolion



- Asiantaethau nyrsys



- Cartrefi plant



- Gofal plant i blant dan 8



- Gwasanaethau maethu



- Gwasanaethau mabwysiadu



- Ysgolion preswyl a cholegau preswyl (ond mae Estyn yn gwirio'r addysg)



- Canolfannau teulu preswyl. Dyma lle y gall teuluoedd aros os yw rhieni yn meddwl ei fod yn anodd bod yn rhiant da.

Rhestr o sefydliadau yn yr adroddiad



AGGCC



Estyn



Swyddfa Archwilio Cymru



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru



Cyngor Gofal Cymru



Age Cymru



Fforwm Cymru gyfan i Rieni a Gofalwyr



Cafcass Cymru



Rhestr o eiriau anodd a geiriau gydag ystyr arbennig

Prif Arolygydd



Y **prif arolygydd** yw pennaeth yr arolygiaeth. Mae arolygiaeth yn gwneud arolygiadau. (Gall prif arolygydd olygu pennaeth yn yr heddlu hefyd. Nid dyna yw'r ystyr yn adroddiad hwn).

Dementia



Salwch yw **dementia**. Mae pobl â dementia yn colli rhan o'u cof. Efallai y byddan nhw'n drysu. Mae'r rhan fwyaf o bobl â dementia yn bobl hŷn. Ond mae rhai pobl mwy ifanc yn cael dementia hefyd.

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid



Weithiau nad yw ymennydd pobl yn gweithio'n dda iawn. Efallai y byddan nhw'n drysu. Efallai y byddan nhw am wneud pethau sydd ddim yn ddiogel. Set o reolau yw'r

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae'r rheolau yn dweud wrth ysbytai a chartrefi gofal beth i'w wneud os bydd angen iddyn nhw stopio rhywun rhag gwneud rhywbeth sydd ddim yn ddiogel.




Blaenoriaethau

Mae gormod i'w wneud o hyd! Mae angen i chi ddewis y pethau mwyaf pwysig i'w gwneud. Yr enw ar y pethau mwyaf pwysig yw **blaenoriaethau**.

Cofrestredig

Rhestr swyddogol yw cofrestr. Mae **cofrestredig** yn golygu eich bod ar y rhestr swyddogol. Mae AGGCC yn cadw rhestr swyddogol o wasanaethau **cofrestredig**. Mae tudalen 5 yn dweud pan fathau o wasanaethau sy'n gorfod cofrestru gyda AGGCC. Mae rheolau gan AGGCC am bwy all fynd ar y gofrestr. Dim ond gwasanaethau sy'n dilyn y rheolau sy'n gallu cofrestru.



Diogelu

Mae angen help ar blant a rhai oedolion i gadw eu hunain yn ddiogel rhag camdriniaeth a niwed. Mae **diogelu** yn golygu eu cadw nhw'n ddiogel.

Gwasanaeth sy'n achosi pryder

Mae gan **wasanaeth sy'n achosi pryder** ystyr arbennig. Weithiau nid yw gwasanaeth yn dilyn pob rheol. Bydd ACCGG yn dweud wrth y gwasanaeth am ddechrau dilyn y rheolau. Ond weithiau nid yw'r gwasanaeth yn gwrando. Felly mae **gwasanaeth sy'n achosi pryder** yn golygu nad yw'r gwasanaeth yn gwneud beth mae AGGCC wedi dweud wrthyn nhw am wneud.



Arolygiaeth

Sefydliad yw **arolygiaeth**. Eu gwaith nhw yw gwirio a yw gwasanaethau yn ddiogel ac yn dilyn y rheolau.





Adolygiad y Prif Arolygydd





Dyma fy adolygiad o'r adroddiad blynyddol.



Ffordd newydd o weithio



Rydyn ni'n gwranddo mwy ar y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.



Rydyn ni'n mynd i'r gwasanaethau i weld beth sy'n mynd ymlaen.

Mae hyn yn rhoi darlun gwell i ni o sut beth yw defnyddio'r gwasanaeth.



Mae tîm grêt gan AGGCC. Mae eu gwaith yn gwneud bywyd yn well i bobl.



Rydyn ni'n rhoi llais cryfach i bobl a mwy o gyfle i gyfrannu at ein gwaith.



Mae angen mwy o lygaid a chlustiau arnon ni i weld beth sy'n digwydd mewn gwasanaethau. Rydyn ni wedi hyfforddi pobl i wneud hyn.

Yr enw ar y bobl hyn yw ymwelwyr annibynnol.



Gwasanaethau mwy diogel

Mae ein gwaith yn bwysig i gadw pobl yn ddiogel.



Rydyn ni'n fwy caled ar wasanaethau gwael.



Rydyn ni'n dibynnu ar deulu a ffrindiau i gadw eu llygaid a'u clustiau ar agor.



Rydyn ni wedi ei wneud yn haws i deulu a ffrindiau ddweud wrthon ni am bryderon.

Caeon ni 15 gwasanaeth cofrestredig i lawr.

Caeon ni 2 wasanaeth oedd heb eu cofrestru i lawr.



Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn dda.

Rydyn ni am i wasanaethau eraill ddysgu oddi wrthyn nhw.



Mae llawer o gartrefi nyrsio yn dweud bod hi'n anodd cael a chadw staff da.

Mae rhai darparwyr yn meddwl am stopio eu gwasanaeth.



Mae'n rhaid i gynghorau lleol wneud yn siŵr bod digon o wasanaethau da.



Rydyn ni'n gwneud mwy o waith ar wasanaethau i bobl â dementia.



Gweithio gyda'n gilydd a bod yn arweinwyr da



Roedden ni'n meddwl bod cynghorau lleol yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn well. Nid yw hyn wedi digwydd.

Dim ond rhai pobl mewn gwasanaethau gofal ac iechyd sy'n gweithio gyda'i gilydd yn well.



Mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn gwasanaethau maethu a mabwysiadu.



Mae'n rhaid i'r bobl sy'n cynllunio a phrynu gwasanaethau wneud yn siŵr bod y gwasanaethau yn dda.



Nid yw rhai Cyfarwyddwyr yn cael y cymorth iawn. Mae hyn yn ei wneud yn anodd iddyn nhw wneud eu gwaith yn iawn.



Cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel



Mae bywydau plant yn newid yn gyflym. Mae'n rhaid i wasanaethau allu newid yn gyflym hefyd.



Mae llawer o gynghorau lleol yn edrych ar ffyrdd gwell i drefnu'r gwasanaethau hyn.



Gwneud rhywbeth am dlodi plant



Mae gofal plant da yn meddwl bod plant yn hwy hapus ac yn ddiogel.

Mae hyn yn meddwl:



- Mae plant yn gwneud yn well mewn bywyd
- Mae'n haws i'w rhieni fynd allan i weithio



Mae Llywodraeth Cymru eisiau mwy o ofal plant, sy'n well. Ein gwaith ni yw gwneud yn siŵr bod gofal plant yn gwella o hyd.



Yn olaf

Mae AGGCC yn gwella oherwydd bod y staff mor dda. Diolch, staff!

Pennod 1

Am AGGCC



Ein gwaith



Rydyn ni am wneud yn siwr bod gwasanaethau:



- o safon uchel, yn hawdd eu defnyddio ac yn ddiogel



- yn hyrwyddo hawliau pobl



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydyn ni'n helpu Llywodraeth Cymru i:



- roi llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl



- gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help cywir i fyw y bywyd y maen nhw ei eisiau



Gall pobl ymddiried yn y pethau yr ydyn ni'n eu dweud am wasanaethau.



Rydyn ni'n dweud wrth reolwyr am ffyrdd da a gwael i redeg gwasanaethau. Rydyn ni'n credu bod hyn yn helpu i wneud gwasanaethau yn well.



Rydyn ni'n helpu rheolwyr i drio syniadau newydd.



Rydyn ni'n gwirio bod gwasanaethau yn dilyn y rheolau.



Mae 3 swyddfa leol gyda ni. Maen nhw'n gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol ac yn gwirio gwasanaethau.



Mae 1 swyddfa genedlaethol gyda ni i edrych ar y bethau dros Gymru i gyd.

Ein harweinwyr



Ein Prif Arolygydd yw Imelda Richardson.



Mae 3 Phrif Arolygydd Cynorthwyol:

Rob Rogers



David Francis



Nigel Brown



Gwirio Gwasanaethau Cymdeithasol



Rydyn ni'n gwirio bod Gwasanaethau
Cymdeithasol:



- yn cwrdd ag anghenion pobl ac yn gwella bywydau pobl



- yn cadw pobl yn ddiogel



- yn dod yn well wrth gwrdd ag anghenion y gymuned



Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r
Cyfarwyddwr. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i
Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
ddweud wrthon ni sut maen nhw'n ei wneud.



4 gwaith y flwyddyn, rydyn ni'n cwrdd ag uwch reolwyr awdurdodau lleol



Rydyn ni'n mynd i weld gwasanaethau ein hunain.



Rydyn ni'n siarad gyda staff.

Rydyn ni'n siarad gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.



Rydyn ni'n edrych ar:



- faterion pwysig yng Nghymru fel cadw pobl yn ddiogel



- adran gwasanaethau cymdeithasol eich cyngor lleol



Gwirio'r gwasanaethau yr ydyn ni'n eu cofrestru

Mae'n rhaid i rai gwasanaethau ofyn i ni eu cofrestru.



Rydyn ni'n dweud pwy sy'n cael rhedeg gwasanaethau.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaeth yn ddigon da.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaeth yn dilyn y rheolau.



Rydyn ni'n edrych ar sut beth yw defnyddio'r gwasanaeth.



Ar ôl i ni wirio gwasanaeth, rydyn ni'n ysgrifennu adroddiad.

Rydyn ni'n rhoi'r adroddiad ar ein gwefan.



Gweithio gyda'n gilydd

Rydyn ni'n gweithio gyda:



- Swyddfa Archwilio Cymru




- Estyn



- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru



- Cyngor Gofal Cymru



- Arolygwyr yn rhannau eraill y DU



Pennod 2

Sut wnaethon ni yn 2012-13



Newid sut rydyn ni'n gweithio



Rydyn ni'n newid i ni allu:



- roi llais cryf a mwy o reolaeth i bobl



- rhoi mwy o hyfforddiant i'n staff



- rhoi neges fwy clir am ba mor dda yw gwasanaethau



Llais mwy cryf i bobl



Dywedodd pobl wrthon ni eu bod nhw eisiau dweud eu barn am ein gwaith.



Ysgrifennon ni gynllun. Mae'r cynllun yn dweud y byddwn ni'n dweud wrth bobl:



- beth rydyn ni'n ei wneud a sut i gymryd rhan yn ein gwaith
- sut i ddweud eu barn am wasanaethau



Rydyn ni wedi dechrau Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol.

Aelodau'r Bwrdd yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd.



Bydd Byrddau Ymgynghorol Lleol.

Bydd y rhain yn dweud wrthon ni am wasanaethau lleol ac yn gwirio ein gwaith.



Mae angen mwy o lygaid a chlustiau arnon ni.
Felly gwnaethon ni drïo syniad newydd.



Gweithion ni gydag Age Cymru a Fforwm
Rhieni a Gofalwyr Cymru gyfan. Hyfforddon ni
ymwelwyr annibynnol.

Mae ymwelwyr annibynnol:



- yn mynd i weld gwasanaethau a gweld
beth sy'n digwydd
- yn siarad gyda phobl sy'n defnyddio'n
gwasanaeth



Helpodd ymwelwyr annibynnol pobl i ddweud
eu barn.



Yn 2014 byddwn ni'n trio'r syniad hwn mewn
cartrefi plant.



Gwasanaethau wedi'u rheoleiddio



Cofrestron ni 470 o wasanaethau newydd.
Roedd y rhan fwyaf yn wasanaethau gofal plant.

470



Gwirion ni bron 4,000 o wasanaethau.

Roedden ni'n pryderu am rai gwasanaethau.
Felly gwirion ni nhw fwy nag unwaith.

4000



Arolygiadau ar y cyd



Mae rheolau o'r enw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Maen nhw'n dweud pan all cartref gofal neu ysbyty stopio rhywun rhag gwneud rhywbeth.



Gweithion ni gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i wirio a yw'r rheolau yn cael eu dilyn.



Nid yw rhai gwasanaethau a thimau yn siŵr am y rheolau o hyd.



Gweithion ni gydag arolygiaethau eraill i wneud yn siŵr bod plant ysgol yn Sir Benfro yn ddiogel.



Gwnaeth y sefydliadau arolygu gytuno beth i'w wneud os byddan nhw'n poeni llawer am wasanaeth.



Y DU i gyd



Penderfynodd ein Prif Arolygydd gael cyfarfod. Gofynnodd i'r Prif Arolygwyr o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ddod.



Rhannon nhw syniadau da a ffyrdd da o weithio.



Pennod 3

**Sut mae gwasanaethau yn
effeithio ar fywyd pobl**





Ymateb i bryderon pobl



Rydyn ni'n arolygu gwasanaethau ond rydyn ni hefyd yn dibynnu ar bobl i ddweud wrthon ni am bryderon. Rydyn ni bob amser yn gwirio os bydd rhywun yn dweud wrthon ni am bryder.



Rydyn ni'n gwneud rhywbeth yn gyflym os ydyn ni'n meddwl bod pobl mewn perygl.



Mae teulu a ffrindiau yn dweud wrthon ni am dros 1,000 o bryderon.

Roedd rhan fwyaf y pryderon am y ffordd yr oedd pobl yn cael eu trin, neu am y staff.



Efallai y byddwn ni'n gwneud rhywbeth ein hunain.



Efallai y byddwn ni'n dweud wrth y person oedd wedi dweud wrthon ni ei fod yn pryderu i ddefnyddio gweithdrefnau cwyno y gwasanaethau eu hunain.



Efallai byddwn ni'n penderfynu bod dim byd gwael yn digwydd. Wedyn bydd dim angen i ni wneud dim byd arall.

Gweithio i wella gwasanaethau

Rydyn ni penderfynu faint o risg yw gwasanaeth.



Wedyn rydyn ni'n penderfynu pa mor aml i wirio a pha fath o wirio i'w wneud.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn risg isel.



Gwasanaethau yr ydyn ni'n poeni amdanyn nhw

Dyma beth rydyn ni'n ei wneud os ydyn ni'n poeni:



- rydyn ni'n dweud wrth y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth beth mae'n rhaid iddyn nhw wneud. Rydyn ni'n dweud wrthyn nhw pa mor gyflym y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud.
- Os nad ydyn nhw'n ei wneud, rydyn ni'n cwrdd â nhw i ofyn pam. Rydyn ni'n gofyn sut byddan nhw'n gwneud beth rydyn ni'n dweud wrthyn nhw i wneud.
- Os nad ydyn nhw'n ei wneud o hyd, rydyn ni'n dweud eu bod nhw'n "wasanaeth sy'n achosi pryder".





Rydyn ni'n ysgrifennu cynllun. Mae'r cynllun yn dweud beth fyddwn ni'n gwneud a beth mae'n rhaid iddyn nhw wneud.



Efallai byddwn ni'n cau nhw i lawr. Efallai y byddwn ni'n mynd â nhw i'r llys.



Rydyn ni'n fwy caled ar wasanaethau gwael.



Roedd 43 o wasanaethau yn "wasanaethau sy'n achosi pryder". Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn wasanaethau i oedolion.

15

Caeon ni 15 gwasanaeth i lawr.



Mae'n rhaid i asiantaethau gofal cartref gofrestru gyda ni.

Gwelon ni bod 4 asiantaeth heb gofrestru gyda ni.



Caeon ni 2 i lawr.

Fe wnaeth y 2 arall gofrestru gyda ni.

2



Pennod 4

Sut mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud





Mwy i'w wneud ond llai o arian



Mae'n rhaid i gynghorau lleol wneud toriadau.
Mae angen gwasanaethau ar fwy o bobl.



Mae mwy o blant mewn gofal. Mae hyn yn her.



Mae llawer o gynghorau yn newid y ffordd y maen nhw'n trefnu gwasanaethau.



Weithiau nid yw pobl leol a chynghorwyr yn hoffi'r newidiadau. Maen nhw trio stopio'r newidiadau.



Arweinwyr



Mae cyfarwyddwyr rhai gwasanaethau cymdeithasol wedi newid llawer o weithiau.



Mae rhai cynghorau lleol yn deall mwy am yr hyn y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wneud nag eraill.



Cynghorau lleol yn gweithio gyda'i gilydd



Mae angen i gynghorau lleol weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau. Nid yw hyn bob amser yn gweithio'n dda.



Mae rhai pobl yn pryderu bydd
cynghorau lleol yn anghofio beth sydd
angen ar bobl leol.



Mae gwasanaethau maethu a
mabwysiadu cynghorau lleol yn gweithio
gyda'i gilydd yn dda.



Mae problemau o hyd wrth drïo cael
cynghorau lleol a'r GIG i fod yn
bartneriaid.



Taliadau Uniongyrchol



Mae Taliadau Uniongyrchol yn golygu cael
yr arian i drefnu peth o'ch gofal, neu'ch
gofal i gyd, eich hunan. Mae'n rhoi mwy o
reolaeth i chi.



Mewn rhai ardaloedd, mae llawer o bobl yn dewis Taliadau Uniongyrchol.

Mewn ardaloedd eraill, nid yw llawer o bobl yn dewis Taliadau Uniongyrchol.



Gall cyngorau lleol wneud mwy i annog pobl i ddewis Taliadau Uniongyrchol.



Gallu defnyddio Gwasanaethau Cymdeithasol



Mae gan y rhan fwyaf o'r cyngorau lleol 1 rhif ffôn, gwefan neu siop i gael gwybod am Wasanaethau Cymdeithasol.



Mae rhai cyngorau yn rhannu hyn gyda'i bwrdd iechyd lleol. Mae pobl yn hoffi hyn.



Mae rhai problemau:

- nid yw'r siop yn ddigon preifat
- nid yw staff canolfannau galwadau yn gwybod digon



- mae'n anodd cael gwybodaeth y tu allan i oriau swyddfa



- mae peth gwybodaeth yn anghywir neu nad yw'n helpu



Mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol yn asesu plant a theuluoedd ar yr adeg iawn.

Mae mwy o bobl am gael help gan wasanaethau plant.

Rydyn ni'n poeni bod rhai ardaloedd yn aros tan fod eu problemau yn fawr iawn cyn helpu.





Helpu pan mae problemau yn fach o hyd



Mae rhai cyngorau lleol yn dda yn helpu pobl. Maen nhw'n stopio problemau bach cyn iddyn nhw droi'n problemau mawr.



Mae rhai cyngorau lleol yn trio ffyrdd newydd i helpu teuluoedd.

Mae'n rhy gynnar i ddweud os yw hyn yn gwneud bywyd yn well i blant a theuluoedd.



Mae rhai cyngorau lleol yn ei wneud yn haws i bobl hŷn aros yn eu cartref eu hunain.



Mewn rhai cyngorau lleol, mae angen i fwy o bobl symud i mewn i gartref gofal.



Cadw pobl yn ddiogel



Mae angen i fwy o blant gael help gan Wasanaethau Cymdeithasol.



Mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol yn dda wrth weld pa plant sydd angen help i gadw'n ddiogel.



Mae angen i rai cynghorau lleol wella.



Yn y dyfodol, bydd grwpiau newydd o'r enw byrddau diogelu lleol. Eu gwaith fydd gwneud yn siŵr bod plant ac oedolion lleol yn ddiogel.



Mae cynghorau lleol wedi dechrau rhoi trefn ar y grwpiau hyn.



Plant mewn gofal



Mae cynghorau lleol yn gwella wrth wneud cynlluniau i blant mewn gofal.



Mae mwy o blant yn cael eu mabwysiadu.



Mae mwy o blant mewn gofal.



Mae plant mewn gofal angen:

- cynlluniau da ar gyfer eu dyfodol
- yr help iawn ar yr adeg iawn





- gweithiwr cymdeithasol. Nid oes gweithiwr cymdeithasol gyda phob plentyn mewn gofal



- cartref sefydlog. Mae rhai plant yn symud tŷ mwy na 3 gwaith o hyd.



- addysg sefydlog. Mae llawer o blant mewn gofal yn gwneud yn wael yn yr ysgol. Mae plant mewn rhai ardaloedd yn gwneud llawer yn well na phlant mewn ardaloedd eraill.



- cyfarfodydd i wirio bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant mewn gofal yn cael hyn



Y rhai sy'n gadael gofal



Mae gan y rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael gofal gynllun gadael gofal.



Dim ond hanner o'r rhai sy'n gadael gofal sydd yn yr ysgol, coleg neu mewn swydd.



Gofalwyr a gofalwyr ifanc



Byddwn ni'n trio cael gwybod pam nad yw llawer o ofalwyr yn defnyddio gwasanaethau cefnogi.



Byddwn ni'n trio gwneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.



Efallai na fydd cynghorau lleol yn gwybod os yw rhywun yn ofalwr ifanc.



Ond pan mae cynghorau **yn** gwybod, maen nhw'n dda am gynnig help.



Mae llawer o gynghorau lleol wedi gofyn i ofalwyr a gofalwyr ifanc pa wasanaethau y maen nhw eu heisiau.



Pennod 5

**Ein blaenoriaethau ar gyfer
y flwyddyn nesaf**





Mae ein gwaith yn bwysig iawn i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael gwasanaeth ardderchog.



Byddwn ni'n gweithio i wneud bywydau pobl yn well.

Byddwn ni'n gweithio gyda:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Llywodraeth Cymru



- cynghorau a byrddau iechyd lleol



- pobl sy'n rhedeg gwasanaethau



- sefydliadau eraill sy'n gwirio gwasanaethau



Gwaith polisi



Byddwn ni'n dweud ein barn pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud polisiâu newydd am ofal cymdeithasol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar beth y gall pobl ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus.



Byddwn ni'n helpu gyda'r cynllun am fwy o wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn Gymraeg.



Tlodi plant



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gofal plant o safon uchel.



Rhoi pobl yn y canol



Dyma sut byddwn ni'n cynnwys pobl yn ein gwaith:



- gallwch wneud cais i ymuno a grŵp i roi cyngor i ni



- gallwch wneud cais i fod yn ymwelydd annibynnol, i weld sut beth yw'r gwasanaethau



- byddwn ni'n gwneud ein hadroddiadau a'n gwefan yn haws i'w deall



- byddwn ni'n gwneud mwy o'n gwaith ar-lein



Pan fyddwn ni'n gwirio gwasanaethau, byddwn ni'n cael gwybod sut mae pethau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth



Byddwn ni'n gwrando os bydd rhywun yn dweud eu bod yn poeni am wasanaeth



Gwneud ein gwaith yn dda

Byddwn ni'n:



- gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru i wneud yn siŵr bod ein harolygwyr yn gwybod sut i wneud eu gwaith yn dda
- profi ffordd newydd o wirio meithrinfeydd.
- Byddwn ni'n helpu pobl i redeg meithrinfeydd gwell.
- Defnyddio ein cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd yn well.





Cadw pobl yn ddiogel

Byddwn ni'n cadw pobl yn ddiogel trwy:




- edrych ar gynllunio a phrynu gofal cymdeithasol i oedolion



- edrych ar wasanaethau i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal



- gwirio Cafcass Cymru



- Edrych ar y rheolau am stopio rhywun rhag gwneud rhywbeth. Yr enw ar y rhain yw'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.



Gweithio gyda'n gilydd

Byddwn ni'n gweithio gyda:



- Y Gwasanaeth Prawf. Byddwn ni'n edrych ar gadw troseddwyd ifanc yn ddiogel.



- Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn ni'n edrych ar bobl ifanc nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol na'r coleg ac nad oes swydd gyda nhw



- Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Byddwn ni'n edrych ar gynllunio a phrynu gwasanaethau i bobl hŷn â dementia



- sefydliadau eraill i wirio beth sy'n digwydd os bydd gwasanaethau am stopio rhywun rhag gwneud rhywbeth



- Cyngor Gofal Cymru. Byddwn ni'n rhannu gwybodaeth yn well.



Gallwch gael mwy o wybodaeth am AGGCC a darllen yr adroddiad llawn yma:

www.aggcc.org.uk



Paratowyd y fersiwn Hawdd ei Darllen gan Gwmni Buddiant Cymunedol Barod



Yn Defnyddio Photosymbols

Sgoriwyd yn annibynnol yn defnyddio Check It!

